# Canllaw i ganlyniadau CBAC TGAU

Cyfres Mehefin 2026

Yn ychwanegol at y ffeil EDI sy'n cynnwys canlyniadau, bydd canolfannau'n derbyn ffeil XML sy'n cynnwys marciau cydrannau ar gyfer cymwysterau llinol. Os yw canolfannau wedi lawrlwytho'r ap cludo data, dylid nodi pob ffeil yn glir. Dylai canolfannau lawrlwytho'r ffeil EDI yn ôl yr arfer ac yna lawrlwytho'r ffeil XML i fewnforio'r data ychwanegol (ar yr amod bod y darparwr MIS yn cefnogi hyn). Noder bod y marciau cydrannau a ddangosir yn farciau pwysol ac maen nhw wedi'u dangos i un lle degol. (gweler isod – "2.iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau”).

# Cynnwys

1. Diwrnod y Canlyniadau ..... 3
i) Casglu Canlyniadau Arholiadau ..... 3
ii) Beth i'w ddisgwyl ..... 3
iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau ..... 3
iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau ..... 4
2. Deall eich canlyniadau ..... 4
i) Esbonio graddau ..... 4
ii) Esbonio marciau ..... 4
iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau ..... 5
3. Ffiniau graddau ..... 5
4. Adroddiadau cymedrolwyr ..... 5
5. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad ..... 6
6. Pryd bydd tystysgrifau ar gael ..... 6
Atodiad 1 – Enghraifft o slip canlyniadau TGAU ..... 7

# 1. Diwrnod y Canlyniadau

## i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau arholiadau o safle eu hysgol neu goleg (canolfan), fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Ar gyfer cyfres Mehefin 2026, cyhoeddir canlyniadau o 8:00am, **dydd Iau 20 Awst 2026.**

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau gyda'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9:30am ar y dydd Iau.

## ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno (y 'slip canlyniadau'). Os yw ymgeiswyr wedi sefyll cymwysterau gyda byrddau arholi gwahanol, gallan nhw dderbyn mwy nag un slip canlyniadau, neu gall yr ysgol neu goleg greu un slip sy'n dangos yr holl ganlyniadau gyda'i gilydd.

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Farcio neu Gymedroli.

## iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer y pynciau a safwyd yn ystod y gyfres arholiadau honno.
Bydd canlyniadau'n cael eu cyflwyno'n wahanol yn ddibynnol ar p'un a yw'r cymhwyster yn unedol neu'n llinol. Gweler adran 2 isod.

Ar gyfer cymwysterau unedol, bydd canlyniadau'n dangos marc GMU a gradd gyffredinol ar gyfer y pwnc, ar yr amod bod y pwnc wedi'i gyfnewid i'w agregu, yn ogystal â marc unffurf (GMU) a gradd ar gyfer pob uned. Os disgwylir gradd gyffredinol nad yw wedi'i chynnwys ar y slip canlyniadau, dylid cysylltu â'r Swyddog Arholiadau yn y ganolfan i wirio bod cofrestriad cyfnewid wedi'i wneud.

Ar gyfer cymwysterau llinol, bydd canlyniadau'n dangos y radd gyffredinol ar gyfer y pwnc. Bydd y marc ar gyfer cydrannau unigol i'w weld hefyd.

### iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau a marciau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

Mae X yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb ymgeisydd o bob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae Q yn dangos bod canlyniad i ddod neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

# Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

Gweler Atodiad 1 am enghraifft o Slip Canlyniadau.

## 2. Deall eich canlyniadau

### i) Esbonio graddau

Adroddir graddau pynciau gradd unigol fel A*- G (gradd A* yw'r uchaf).

Adroddir canlyniadau TGAU Dwyradd ar raddfa 15 gradd. A*A* yw'r uchaf a GG yw'r isaf: A*A*, A*A, AA, AB, BB, BC, CC, CD, DD, DE, EE, EF, FF, FG, GG. Y radd uchaf sy'n ymddangos gyntaf ar y rhestr bob amser.

Adroddir graddau cyrsiau byr TGAU fel A*-G.

Bydd ymgeiswyr y mae lefel eu cyrhaeddiad yn is na'r safon isaf sy'n ofynnol yn derbyn canlyniad annosbarthedig (U).

### ii) Esbonio marciau

- **Marciau crai**
  Mae cyfanswm marciau crai yn cael ei ddyrannu i bob uned neu gydran.

- **Graddfa Marciau Unffurf (GMU).**
  Mewn manylebau **unedol** mae marciau crai yn cael eu trawsnewid yn farc unffurf (GMU) sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais ar gyfer adrodd, cofnodi ac agregu canlyniadau asesu unedau/cydrannau ymgeiswyr. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch GMU ar gael fel dogfen ar wahân yma – TGAU, ac mae manylion sut i drawsnewid marciau crai yn farciau GMU ar ein gwefan (gwybodaeth ar gael o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau).

  Adroddir marciau unffurf fel marciau cyfan ac felly, os bydd angen gwneud hynny, byddan nhw'n cael eu "talgrynnu" (e.e. adroddir marc unffurf o 19.6 fel 20). Er bod hyn yn rhywbeth prin, gall olygu bod marc crai ar frig yr ystod marciau mewn gradd yn trawsnewid yn farc unffurf wedi'i dalgrynnu sy'n cyfateb i'r radd nesaf i fyny. Noder, er na chodir gradd yr uned yn rhan o'r broses dalgrynnu, y bydd y marc unffurf wedi'i dalgrynnu'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r radd gyffredinol.

### iii) Sut mae marciau'n cael eu trawsnewid yn raddau

- Mewn cymwysterau llinol, mae nifer penodol o farciau crai i bob cydran/uned. Fodd bynnag, gall cydrannau/unedau o fewn cymhwyster fod â phwysoli gwahanol. Mae ffactor pwysoli (y cyfeirir ato hefyd fel ffactor agregu) yn cael ei gymhwyso wrth gyfrifo cyfanswm y marciau. Mae pwysoli yn esbonio pam nad yw'r marciau crai ar gyfer cydrannau/unedau unigol bob amser yn adio i gyfanswm y marciau ar gyfer y cymhwyster. Gellir cyfrifo'r marc pwysol ar gyfer pob cydran trwy luosi'r marc crai ar gyfer cydran/uned â'i ffactor pwysoli. Mae'r ffactor pwysoli wedi'i restru yn y ddogfen Pwyntiau Gradd CBAC TGAU (Llinol) sydd ar gael ar ein gwefan o 8:00am ar ddiwrnod y canlyniadau.

- Yn y cymwysterau unedol, cyfrifir gradd gyffredinol y cymhwyster gan adio'r marciau unffurf a enillwyd yn yr unedau unigol at ei gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm marciau unffurf i'r ymgeiswyr sy'n trawsnewid yn radd gyffredinol yn seiliedig ar ffin y radd.

## 3. Ffiniau graddau

Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Er bod papurau arholiad yn cael eu hysgrifennu i'r un lefel o anhawster, maen nhw'n amrywio bob blwyddyn. Mae ffiniau graddau yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr un radd ar gyfer yr un lefel o berfformiad, pryd bynnag caiff yr arholiad ei sefyll.

### Ffiniau graddau ar gyfer cymwysterau unedol

Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Mae'r ffiniau graddau ar gael ar wefan CBAC (gwybodaeth ar gael o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau)

### Ffiniau graddau ar gyfer cymwysterau llinol

Gyda phynciau llinol dyfernir un radd am y pwnc yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer pob cydran/uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar Ddiwrnod y Canlyniadau.

Mae'r ffiniau graddau 'tybiannol' ar gyfer pob cydran hefyd ar gael.Mae ffiniau graddau yn 'dybiannol' ac fe'u bwriedir fel canllaw yn unig. Nid graddau swyddogol ydyn nhw. Gall y ffiniau graddau tybiannol newid o un gyfres i'r llall.

Ar ddiwrnod y canlyniadau, bydd yr holl ffiniau graddau llinol ac uchafswm y marciau ar gael ar ein gwefan o 8 o'r gloch y bore ar ddiwrnod y canlyniadau. Nid yw ffiniau GMU yn newid o gyfres i gyfres. Gallwch weld ffiniau graddau ar ein gwefan.

## 4. Adroddiadau cymedrolwyr

Mae adroddiadau cymedrolwyr ar gael i'w lawrlwytho o'r adran asesiadau mewnol / canlyniadau ar Porth hyd at **31 Rhagfyr 2026**.

Dylai canolfannau y mae angen adroddiadau arnynt ar ôl y dyddiad hwn gysylltu'n uniongyrchol â thîm y pwnc i gael mynediad i'r adroddiad.

## 5. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gallai'r ganolfan wneud cais am un neu fwy o'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau a gynigir gan CBAC. Ni all ymgeiswyr mewnol na rhieni wneud cais. Gall ymgeiswyr preifat gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau CBAC i gyflwyno cais.

Ymhlith y gwasanaethau hyn mae:

- Mynediad am ddim i sgriptiau – bydd fersiwn electronig o'r sgript ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o'r safle Porth.
- Ailwiriad clercaidd – ailwiriad o'r holl weithdrefnau clercaidd sy'n arwain at gyhoeddi canlyniad yw hwn.
- Adolygu'r marcio ar ôl y canlyniadau – adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio y cytunwyd arno wedi'i ddefnyddio'n gywir.
- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Am fanylion pellach yn cynnwys ffioedd a dyddiadau cau, edrychwch ar ein tudalen Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau a'r wybodaeth a gyhoeddir gan y CGC, sydd i'w gweld yma.

**Mae'n bwysig nodi y gall marciau aros yr un fath, neu godi neu ostwng, wrth wneud cais am ailwiriad clercaidd neu adolygiad o farcio.** Felly, **rhaid** i ymgeiswyr lofnodi dogfen yn cydsynio i'r cais cyn i ysgol neu goleg ei gyflwyno.

Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr. Os cyflwynwyd cais gan ymgeisydd preifat yn uniongyrchol i CBAC, yna'r ymgeisydd ei hun fydd yn derbyn y canlyniad. **Unwaith y bydd canlyniad wedi'i gyhoeddi, ni ellir adfer y marc gwreiddiol dan unrhyw amgylchiadau, hyd yn oed os yw'r marc newydd yn is na'r marc gwreiddiol.**

## 6. Pryd bydd tystysgrifau ar gael

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn mis **Tachwedd**.

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na **4 Medi 2026**. Os nad yw gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.

# Atodiad 1 – Enghraifft o slip canlyniadau TGAU

I bynciau unedol, dangosir marc GMU pob uned a dangosir cyfanswm GMU y pwnc mewn print trwm.

I bob pwnc, dangosir marc crai pob uned neu gydran a dangosir y cyfanswm marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

wjec cbac

**SUMMARY OF RESULTS**

GCSE JUNE 2017

| CENTRE NO. | CENTRE NAME | | |
|---|---|---|---|
| 68000 | TEST CENTRE | | |
| CANDIDATE NO. | CANDIDATE NAME | | DATE OF BIRTH |
| 50000 | SURNAME FORENAME | | 01/01/00 |
| CANDIDATE UCI | | CANDIDATE ULN | |
| XXXXXXXXXXXXX | | | |

| | | | UMS | Paper | Mark | Grade |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ART & DESIGN (GRAPHIC COMMUNICAT.) | **BASIC** | **4050/SA** | | 01:CANDIDATE PORTFOLIO | 092 (120) | **C** |
| | | | | 02:EXTERNALLY SET TASK | 041 (080) | |
| BIOLOGY | **CASH IN (UNITISED)** | **4480/SA** | **209** | | | **C** |
| BIOLOGY 3 | FOUNDATION TIER | 4483/01 | 052 | 01:BIOLOGY 3 FOUNDATION | 032 (060) | c |
| BIOLOGY CONTROLLED ASSESSMENT | CONTROLLED ASSESSMENT | 4484/01 | 061 | 01:CONTROLLED ASSESSMENT | 038 (048) | b |
| CATERING | **CASH IN (UNITISED)** | **4730/SA** | **151** | | | **B** |
| HOSPITALITY & CATERING UNIT 1 | CONTROLLED ASSESSMENT | 4731/01 | 082 | 01:CONTROLLED TASK | 080 (120) | c |
| HOSPITALITY & CATERING UNIT 2 | PAPER ASSESSMENT | 4732/01 | 069 | 01:UNIT 2 WRITTEN PAPER | 061 (080) | a |
| ENGLISH LANGUAGE | **ENGLISH LANGUAGE** | **C700QS** | | 01:COMPONENT 1 | 030 (080) | **6 P** |
| | | | | 02:COMPONENT 2 | 052 (080) | |
| | | | | 03:SPOKEN LANGUAGE | 000 (000) | |

Nid yw'r gydran Iaith Lafar yn cyfrannu at y radd gyffredinol ym mhynciau Eduqas Saesneg Iaith. Dangosir canlyniad y gydran hon fel '000' ac mae'r canlyniad i'w weld gyferbyn â chanlyniad y cymhwyster.

I bynciau Eduqas, dangosir graddau cymwysterau fel rhif. I bynciau hen fanylebau a manylebau newydd Cymru, priflythyren sy'n dangos canlyniad cymhwyster a llythrennau bach sy'n dangos canlyniad uned. I bynciau Saesneg Iaith Eduqas, mae'r canlyniad Iaith Lafar i'w weld fel arnodiad gyferbyn â chanlyniad y cymhwyster.